# Diogelu – arfer da

## Arfer da ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn yr eglwys

Dylech ddarllen Polisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru a'r canllawiau cysylltiedig i weld yr holl wybodaeth yn ei chyfanrwydd. Mae'r canllawiau hyn ar ddiogelu yn berthnasol i bob gweithiwr cyflog a gwirfoddol, sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion mewn perygl neu sy'n eu cefnogi. Dylech sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion mewn perygl yn cael copi o'r canllaw hwn.

### *Os oes gennych chi bryderon am achos posibl o gam-drin (yn cynnwys honiadau)*

- Cysylltwch â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol mewn argyfwng.
- Neu cysylltwch â Swyddog Diogelu'r Dalaith https://www.churchinwales.org.uk/cy/safeguarding/
- Gyda'ch gilydd, penderfynwch a ydych am ofyn am gyngor neu atgyfeirio'n syth at yr heddlu neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r Dalaith beth bynnag fyddwch chi'n ei wneud.
- Rhowch wybod i offeiriad eich plwyf (os nad yw ef/hi yn rhan o'r pryder neu'r honiad) a dim ond dweud wrth y rhai sydd angen gwybod er mwyn diogelu'r sefyllfa.

### *Plentyn neu oedolyn sy'n dymuno datgelu ei fod wedi'i gam-drin*

- Gadewch i'r person siarad heb ymyrryd, gan dderbyn yr hyn mae'n ei ddweud. Peidiwch â chwestiynu neu ymchwilio.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd ac esboniwch y bydd rhaid i chi drosglwyddo'r wybodaeth er mwyn ei gadw ef/hi ag eraill yn ddiogel.
- Gwnewch nodiadau gofalus o'r hyn sy'n cael ei ddweud, nodwch ddyddiadau, amseroedd a digwyddiadau gan ddefnyddio'r union eiriau lle bo'n bosibl.
- Llofnodwch, nodwch ddyddiad a rhoi'r nodiadau hyn i'r sawl sy'n gyfrifol am ddiogelu.
- Gofalwch na fydd sefyllfa'n codi a allai achosi pryder pellach.

### *Os ydych chi'n derbyn cwyn neu honiad yn erbyn rhywun gan gynnwys chi'ch hun*

- Hysbyswch Swyddog Diogelu'r Dalaith yn syth.
- Ysgrifennwch nodiadau gofalus a chyfredol o'r hyn a welsoch, a glywsoch neu a ddywedwyd wrthych chi.
- Llofnodwch, nodwch ddyddiad a rhoi'r nodiadau hyn i'r sawl sy'n gyfrifol am ddiogelu.

- Ceisiwch sicrhau na fydd neb yn cael ei roi mewn sefyllfa a allai achosi mwy o berygl.

***Cod ymddygiad wrth weithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl***

- Parchu pawb, a bod yn esiampl gadarnhaol i eraill.
- Parchu gofod personol a phreifatrwydd.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cynnwys nifer o bobl, a bod yn bresennol eich hun o hyd braich bob amser.
- Sicrhau na all neb arall gamddehongli'ch gweithredoedd.
- Galw pobl i gyfrif am ymddygiad annerbyniol fel bwlio, ffafriaeth, ensyniadau ac ati.
- Peidio â chael cyswllt corfforol neu siarad yn amhriodol ag eraill.
- Peidio â rhoi neb, yn cynnwys chi eich hun, mewn sefyllfa agored i niwed neu amheus.
- Peidio â chadw cyfrinachau am honiadau neu achosion tybiedig o gamdriniaeth. ***COFIWCH GOFNODI A RIPORTIO.***
- Os ydych chi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu breswyl, trowch at ganllawiau'r Eglwys yng Nghymru i weld manylion yr arferion gorau.